Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2008

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 24.1.

Disgrifiad
Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb 2007/68/EC y Comisiwn, a wnaed ar 27 Tachwedd 2007, drwy ddiwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (fel y'i diwygiwyd) i eithrio cynhwysion bwyd penodol yn barhaol rhag cael eu cynnwys ar labeli am nad ydynt, yn sgil prosesu, bellach yn cynnwys yr elfen alergenig.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Dim.

Cefndir Deddfwriaethol
Mae'r pwerau sy'n rhoi'r modd i'r Rheoliadau gael eu gwneud wedi'u cynnwys yn Adrannau 16(1)(e), 17(1), 26(1)(a) a 48(1) y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Gall Gweinidogion Cymru arfer y rhain. Mae'r Rheoliadau yn rhwym wrth weithdrefn penderfyniad negyddol y Cynulliad.

Pwrpas ac Effaith Fwriedig y Ddeddfwriaeth
Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (fel y'i diwygiwyd) ymhellach, drwy ymgorffori Cyfarwyddeb 2007/68/EC y Comisiwn yng nghyfraith y DU. Mae'r Gyfarwyddeb yn diwygio Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd a Chyngor Ewrop a wnaed ar 20 Mawrth 2000, o ran lledamcan o gyfreithiau'r Aelod Wledydd yng nghyswllt labelu, cyflwyno a hysbysebu bwydydd.

Amcan allweddol y Rheoliadau arfaethedig fyddai sicrhau y caiff defnyddwyr eu hysbysu'n gywir am bresenoldeb alergenau yn y bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw a brynir ganddynt, drwy ddiwygio'r Rheoliadau Labelu Bwyd i gyflwyno Atodlen AA1 newydd.

Cefndir
Rheolir labelu bwyd yng Ngwledydd Prydain gan Reoliadau Labelu Bwyd 1996 (fel y'i diwygiwyd) a darpariaethau penodol Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Deddf Disgrifiadau Masnach 1968. Dyma fwriad y rheolau:

- sicrhau y caiff defnyddwyr eu hysbysu'n gywir am natur a sylwedd y bwydydd a brynir ganddynt;
- diogelu defnyddwyr rhag disgrifiadau sy'n anghywir neu'n gamarweiniol; a
- rhoi fframwaith rheoliadol clir i'r diwydiant bwyd ei ddefnyddio, nad yw'n cyfyngu ar arloesi o ran cynnyrch nac yn atal symudiad rhydd nwyddau o fewn yr UE.

Cyflwynwyd y gofyniad i labelu cynhwysion alergenig penodedig pan gânt eu defnyddio mewn bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw yn 2004 yn sgil Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygiad) (Cymru) (Rhif 2) 2004. Yn ogystal â hyn, rhoddodd Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygiad) (Cymru) (Rhif 2) 2005 eithriadau dros dro i nifer o gynhyrchion sy'n deillio o'r cynhwysion alergenig penodedig a enwyd yn Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygiad) (Cymru) (Rhif 2) 2004 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2005 a mis Tachwedd 2007. Ar 28 Tachwedd 2007, yng ngoleuni sylwadau a wnaed gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) ar goflenni a gyflwynwyd gan y diwydiant, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd Gyfarwyddeb 2007/68/EC yn enwi'r cynhwysion hynny y dylid eu heithrio'n barhaol rhag y darpariaethau labelu alergenau.

Mae'r ddeddfwriaeth UE hon yn sicrhau y caiff y defnyddwyr hynny sydd ag alergeddau eu hysbysu'n gywir ac y gallant wneud dewisiadau gwybodus ar sail labeli cywir ar fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw. Drwy ymgorffori'r rhestr eithriadau yng nghyfraith y DU, ni chaiff dewis y defnyddiwr ei gyfyngu gan labeli diangen ar gynhyrchion sy'n deillio o sylweddau alergenig sydd wedi'u prosesu ac wedi peidio â bod yn alergenig. Ni chafodd rhai o'r cynhwysion alergenig a eithriwyd dros dro eu heithrio'n barhaol, felly bydd angen labeli alergenau arnynt yn awr. Bydd y Rheoliadau newydd yn egluro pa fwydydd sy'n alergenig a pha fwydydd nad ydynt yn alergenig ac yn cynyddu nifer y bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw sydd ar gael i ddefnyddwyr ag alergeddau, gan atal labelu alergenau yn ddiangen ar y bwydydd hynny.

Gweithredu'r Rheoliadau
Y nod yw y bydd y rheoliadau hyn yn dod i rym erbyn 31 Mai 2008 fan bellaf. Bydd offerynnau gwahanol ond cyfochrog hefyd yn dod i rym yn Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon erbyn 31 Mai 2008 fan bellaf.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol
<u>Dewisiadau</u>

- **Dewis 1:** Gwneud dim.
- **Dewis 2:** Gweithredu gofynion y CE drwy ddiwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (fel y'i diwygiwyd) ymhellach.
- **Dewis 3:** Diddymu Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (fel y'i diwygiwyd) a chyflwyno deddfwriaeth newydd yn cyfuno'r rheolau labelu bwyd presennol a'r gofynion CE newydd o fewn un set o Reoliadau.

Opsiwn 1 – Gwneud dim
Ni fyddai hyn yn gwireddu ymrwymiad yr Asiantaeth i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr ar labeli er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr wneud dewisiadau cwbl wybodus. Hefyd, byddai hyn yn arwain at labelu rhai cynhwysion, nad ydynt bellach yn alergenig, a hynny'n ddiangen. Byddai'r dewis hwn hefyd yn golygu y gall y Comisiwn Ewropeaidd gychwyn achos tordyletswydd. Nid yw Dewis 1 yn ddewis ymarferol felly.

Dewis 2 – Rhoi gofynion y CE ar waith

Byddai gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn yn gwireddu rhwymedigaeth y DU dan Gytundeb y CE, yn sicrhau bod rheolau labelu yn gyson ledled yr UE, yn hwyluso gallu'r defnyddiwr i wneud dewisiadau gwybodus ac yn caniatáu i gynhyrchwyr yn y DU weithredu'n rhydd ac yn gystadleuol o fewn y farchnad sengl. Byddai hyn hefyd yn golygu y bydd cynhyrchion sy'n cynnwys nifer o'r cynhwysion a oedd ar y rhestr eithriadau dros dro (h.y. cynhwysion sydd, yn sgil prosesu, wedi peidio â bod yn alergenig) yn parhau i gael eu heithrio rhag y gofynion labelu alergenau. Fodd bynnag, ni chafodd pob un o'r cynhyrchion a eithriwyd dros dro eu cynnwys yn y rhestr eithriadau parhaol.

Dewis 3 - Diddymu Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (fel y'i diwygiwyd) a chyflwyno deddfwriaeth newydd yn cyfuno'r rheolau labelu bwyd presennol a'r gofynion CE newydd o fewn un set o Reoliadau.
Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnal adolygiad sylfaenol o faes gwybodaeth bwyd a labelu bwyd. Disgwylir y bydd canlyniad yr adolygiad yn cynhyrchu un darn cyfunol o ddeddfwriaeth ar ffurf Rheoliad CE uniongyrchol berthnasol ar gyfer labelu bwyd. Felly, byddai'n bragmatig disgwyl i glywed canlyniad yr adolygiad Ewropeaidd cyn ymgymryd ag unrhyw ymarfer i gyfuno holl ddeddfwriaeth y DU ar labelu bwyd.

Yng ngoleuni'r dadansoddiad uchod, hoff ddewis yr Asiantaeth, felly, yw Dewis 2.

Costau a Manteision

Sectorau busnes yr effeithid arnynt
Y busnesau yr effeithid arnynt fyddai'r holl gynhyrchwyr bwyd sy'n ymwneud â chynhyrchu bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw.

Dewis 1
Costau
Dan y dewis hwn, byddai'n rhaid i bob cwmni sy'n cynhyrchu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, ac yn manteisio ar yr eithriadau labelu dros dro, ddechrau labelu cynhwysion sy'n deillio o fwyd alergenig yn syth, hyd yn oed os yw'r cynhwysion wedi'u dynodi'n rhai y dylid eu heithrio. Y rheswm dros hyn yw bod yr eithriadau dros dro, a oedd ar waith ynghynt, wedi dod i ben ym mis Tachwedd 2007, gan arwain at gostau dylunio ac argraffu labeli newydd.

Nid yw'n debygol y câi unrhyw gostau eu trosglwyddo i'r GIG yn sgil gwneud dim. Yn yr achos hwn, byddai gwybodaeth anghywir ar gael i ddefnyddwyr yn sgil labelu diangen ond ni ddylai nifer y bobl a dderbynnir i'r ysbyty, na nifer y marwolaethau, gynyddu. Fodd bynnag, dan y dewis hwn y gost i'r defnyddiwr ag alergedd fyddai lleihad yn nifer y bwydydd sydd ar gael iddynt ei fwyta, oherwydd byddai cynhwysion nad ydynt, yn ymarferol, yn alergenig bellach oherwydd prosesu, yn dal i gael eu labelu gan gyfeirio at y bwyd alergenig a oedd yn ffynhonnell iddynt.

Pe na châi dim ei wneud, byddai'n rhaid i nifer o gynhyrchion, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys cynhwysion a eithrir dan y Gyfarwyddeb newydd, gael eu

labelu yn y dyfodol – er nad yw'n bosibl bellach i'r cynhwysion hynny achosi adwaith alergaidd. Felly, mae'n gwbl bosibl i ddefnyddwyr ag alergedd gymryd yn ganiataol eu bod wedi goresgyn eu halergedd, os byddant yn bwyta'r bwydydd hyn sydd â label yn dweud eu bod yn cynnwys cynhwysyn alergenig ac yn peidio â chael adwaith alergaidd. Yna, ceir perygl y byddant yn dechrau bwyta bwydydd eraill sy'n cynnwys yr alergen, a gallant ddioddef o adweithiau difrifol iawn.

Byddai Llywodraeth y DU hefyd yn wynebu costau petai'r Comisiwn Ewropeaidd yn cychwyn achos tordyletswydd yn ei herbyn am iddi beidio â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith.

Manteision
Ni cheir dim manteision yn sgil peidio â gweithredu'r ddeddfwriaeth hon.

Dewis 2
Dan y dewis hwn, ceid cadarnhad bod mwyafrif y cynhwysion a eithriwyd dros dro rhag eu labelu bellach wedi'u heithrio'n barhaol.

Ceir rhai cynhwysion na chafodd eu heithrio'n barhaol rhag eu labelu, ond bydd cyfnodau trosiannol ar waith. Y cynhwysion hyn oedd:

- almonau/cnau Ffrengig i roi blas ar wirodydd
- olew dail a hadau seleri
- oleoresin hadau seleri
- sylwedd diwaddodi a wneir o albwmin wy ar gyfer gwin a seidr
- gelatin pysgod i gludo blasau
- sylwedd diwaddodi a wneir o isinglas ar gyfer seidr
- lysosym (a wneir o wyau) a ddefnyddir mewn gwin
- sylwedd diwaddodi a wneir o laeth (casein) ar gyfer gwin a seidr
- olew mwstard
- olew hadau mwstard
- oleolresin hadau mwstard

Costau
Nid oes angen newid labeli ar gyfer unrhyw gynhwysion a eithriwyd dros dro sydd wedi'u heithrio'n barhaol. Yn achos cynhwysion a eithriwyd dros dro ond ni chawsant eu heithrio'n barhaol, byddai'n rhaid newid eu labeli a/neu eu rhestrau cynhwysion i ddangos yr alergenau penodedig, neu byddai'n rhaid newid y cynnyrch i gael gwared ar y cynhwysyn neu roi cynhwysyn arall, nad yw'n alergenig, yn ei le. Ni thybir y caiff hyn effaith sylweddol ar fusnesau'r DU oherwydd y cyfnod trosiannol estynedig y cytunwyd arno.

Gan y bydd cyfnod trosiannol tan 31 Mai 2009, disgwylir y gellir gwneud newidiadau i labeli bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw o fewn cylchredau labelu presennol y cynhyrchwyr. Felly, dylai unrhyw gostau a achosir fod yn isel iawn. Mae Consortiwm Manwerthu Prydain wedi amcangyfrif y bydd cost ail-labelu oddeutu £1000 am bob cynnyrch. Fodd bynnag, bydd y cyfnod trosiannol o ddeuddeng mis yn ysgafnhau'r effaith hon drwy negyddu unrhyw gostau ychwanegol a all godi yn sgil gorfod argraffu labeli newydd y tu allan

i'r gylchred fasnachol neu dynnu cynhyrchion oddi ar y farchnad wrth i'r labeli gael eu newid. Felly, nid yw'r costau yn sgil unrhyw labelu newydd angenrheidiol yn debygol o fod yn sylweddol.

Bydd angen i fusnesau ganiatáu amser i ddarllen a deall y Rheoliadau. Fodd bynnag, gan fod y Rheoliadau yn syml, ni ddylai hyn fod yn dasg feichus. I'r rhan fwyaf o fusnesau, amcangyfrifwn y byddai'n cymryd oddeutu 30 munud i ddarllen hyn ar gyfradd o £11.19 (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2006 (ASHE) – dadansoddiad fesul diwydiant) yn seiliedig ar ddau unigolyn yn darllen y ddeddfwriaeth newydd. Ceir oddeutu 18,000 o gynhyrchwyr yn y DU y bydd angen iddynt, o bosibl, ddeall y Rheoliadau hyn, gan achosi un gost weinyddol grynswth o £403,000.

Ceir 469 o awdurdodau lleol yn y DU ac, yn seiliedig ar roi ½ awr i ddau unigolyn ddarllen y ddeddfwriaeth newydd ar gyfradd o £9.95, byddai hynny'n costio £9333. Ffynhonnell – Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2006 – dadansoddiad gan Swyddfa'r Llywodraeth fesul galwedigaeth. Byddai hyn gyfwerth ag oddeutu £438 i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r asiantaeth yn ystyried y bydd llawer o gwmnïau eisoes yn deall cyfansoddiad eu cynhwysion ac felly mae'n debygol y bydd yr arferion masnachol arferol ar gyfer nodi ffynonellau yn hysbysu cynhyrchwyr am gyfansoddiad alergenig eu cynhyrchion. Hyd yn oed os bydd angen egluro natur alergenig bosibl cyflenwadau sy'n uwch yn y gadwyn, ni ddisgwylir y bydd hyn yn golygu cost sylweddol.

Manteision

Byddai rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith yn bodloni ymrwymiad y DU dan Gytundeb y CE i sicrhau labelu cyson ar fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw ledled yr UE. Byddai defnyddwyr yn manteisio ar y rheolau newydd, oherwydd byddai labelu mwy cynhwysfawr yn cynyddu'r wybodaeth a'r dewis sydd ar gael, ac o bosibl yn diogelu iechyd ymhellach. Ceir mantais sylweddol i ddefnyddiwr ag alergedd os bydd y cynhwysion nad ydynt yn peri risg alergaidd yn parhau i gael eu heithrio o'r ddeddfwriaeth labelu alergenau. Yn ogystal â hyn, bydd rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith yn gwella dewis y defnyddwyr oherwydd ni fyddai'n rhaid labelu'r cynhwysion y dylid eu heithrio.

Hefyd, mae'n wir y byddai'r ddeddfwriaeth labelu alergenau yn effeithio ar fwy o fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw pe na châi'r Gyfarwyddeb ei gweithredu nag yr effeithid arnynt pe châi ei gweithredu. Felly, byddai rhoi'r Gyfarwyddeb hon ar waith o fudd i'r diwydiant bwyd.

Dewis 3

Costau

Dan y dewis hwn, byddai'r costau a nodwyd dan ddewis 2 yn berthnasol. Fodd bynnag, byddai dewis 3 yn golygu bod yn rhaid cyfnerthu'r Rheoliadau Labelu Bwyd a'u hadolygu'n sylweddol. Byddai hynny'n oedi'r broses o roi'r Gyfarwyddeb hon ar waith ac yn arwain at gostau ychwanegol i'r

Llywodraeth. Hefyd, ni fyddai'n synhwyrol cynnal adolygiad o'r fath ar adeg pan fydd disgwyl i'r Comisiwn gyhoeddi cynnig ar gyfer diweddaru a chyfnerthu rheolau labelu cyffredinol y CE yn y dyfodol agos.

Manteision
Dan y dewis hwn, byddai'r manteision a nodwyd dan ddewis 2 yn berthnasol.

Asesu'r Gystadleuaeth
Mae canlyniadau'r Canllawiau ar gyfer Asesu'r Gystadleuaeth yn dangos mai ychydig iawn o effaith a gâi'r Rheoliadau arfaethedig ar y strwythur neu'r broses gystadleuol o fewn y marchnadoedd bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw. Y costau posibl yw'r rheini sy'n deillio o ddiweddaru'r labeli i adlewyrchu'r gofynion newydd ar gyfer y cynhwysion hynny na chawsant eu heithrio'n barhaol rhag y gofynion labelu ar fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw. Ymhob achos, bron, mae'n debygol y gellid gwneud y newidiadau hyn fel rhan o'r gylchred newid labeli arferol. Byddai hynny'n effeithio ar yr holl gynhyrchwyr, ac felly ymddengys mai ychydig iawn o fygythiad fyddai i'r gystadleuaeth.

Ymgynghoriad
Cyn i'r Gyfarwyddeb gael ei chyhoeddi, rhoddodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wybod i fusnesau am y cynnig a chysylltu â rhandaliad ymhlith defnyddwyr a busnesau i geisio eu barn ynghylch y cynnig. Sicrhaodd hyn fod yr Asiantaeth wedi negodi gyda'r Comisiwn yn y meysydd a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar grwpiau defnyddwyr a busnesau yn y DU.

Roedd yr atebion a gafwyd gan randdeiliaid yn perthyn, yn fras, i ddau gategori:

- Roedd y diwydiant cynhyrchu gwin yn pryderu na fyddai'r un sylwedd diwaddodi yn cael ei eithrio'n barhaol. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i botel o win ddatgan pa fwyd alergenig yw ffynhonnell y sylwedd diwaddodi a ddefnyddir yn y broses hon, h.y. wy, llaeth neu bysgod. Fodd bynnag, aeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd ati i weithio gyda'r Comisiwn a'r diwydiant gwin a sicrhau eithriad parhaol am ddefnyddio isinglas fel sylwedd diwaddodi wrth gynhyrchu gwin a chwrw. Cefnogwyd y syniad hwn gan dystiolaeth mai ychydig iawn, neu ddim o gwbl, o'r sylwedd diwaddodi sy'n bresennol yn y cynnyrch terfynol, ac felly mae'n annhebygol iawn o achosi adwaith alergaidd mewn unigolyn sy'n sensitif iddo. Hefyd, ni cheir tystiolaeth ddogfennol bod isinglas wedi achosi adwaith alergaidd erioed.

- Roedd y diwydiant yn pryderu mai dim ond chwe mis a roddid iddynt i weithredu unrhyw newidiadau yn y labeli. Negodwyd chwe mis ychwanegol, felly byddai'n rhaid i'r newidiadau yn y labeli fod wedi'u cwblhau erbyn 31 Mai 2009.

Yn ogystal â hynny, cynhaliodd yr Asiantaeth ymgynghoriad cyhoeddus i ganiatáu i'r holl bobl hynny y mae ganddynt ddiddordeb mewn labelu bwyd ac

alergenau roi sylwadau ar y ddeddfwriaeth ddrafft ar weithredu domestig. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad, gan gynnwys yr Ymgyrch Anaffylacsis a Chydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol (LACORs UK), yn gefnogol iawn i'r syniad o weithredu'r Gyfarwyddeb mewn deddfwriaeth genedlaethol. Nid oedd yr un o'r ymatebion yn cynnwys sylwadau ar yr Offeryn Statudol drafft; fodd bynnag, cafwyd rhai awgrymiadau ar gyfer gwella'r nodiadau canllaw cysylltiedig gan gyrff cynrychioladol megis Consortiwm Manwerthu Prydain a'r grŵp Safonau Masnach (nid oedd yr un ohonynt wedi'u lleoli yng Nghymru); rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau hyn wrth lunio fersiwn derfynol y canllawiau cysylltiedig.

Nid yw'r mesurau newydd yn effeithio'n uniongyrchol ar waith adrannau eraill y Llywodraeth; fodd bynnag, maent wedi cael gwybod am y Rheoliadau newydd ac wedi cael cyfle i gymryd rhan yn y gwaith o'u datblygu. Cafwyd ymgynghori gyda Chydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol (LACORS UK) ynghylch gorfodi'r Rheoliad a dywedasant eu bod yn fodlon â dewis 2 ac yn ei gefnogi.

Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach

Mae asesiad cychwynnol o'r effaith ar fusnesau bach yn dangos effaith bosibl oherwydd byddai angen canfod a ddefnyddir cynhwysion alergenig ai peidio mewn bwydydd neu gynhwysion a gaiff eu paratoi'n rhannol a'u prynu i mewn, ac unrhyw gostau ail-labelu yn sgil hynny. Mae'n bosibl y bydd busnesau o bob maint sy'n ymdrin â'r cynhwysion hyn yn wynebu rhywfaint o gostau ychwanegol yn sgil cynnal y profion gwybodaeth hyn ac ail-labelu cynhyrchion i adlewyrchu'r gofynion newydd. Bydd unrhyw gostau o'r fath yn dibynnu ar faint a throsiant y cwmnïau, yn ogystal â nifer y gwahanol gynhyrchion a werthir ganddynt. Ond, fel y nodwyd eisoes, nid oes disgwyl i'r costau hyn fod yn sylweddol.

Mae tystiolaeth yn Adroddiad y Tasglu ar faich rheoliadau bwyd ar Fusnesau Bach yn awgrymu bod rhai busnesau bwyd bach yn wynebu anhawster o ran cadw at y newidiadau diweddaraf yn y ddeddfwriaeth a chael cyngor am ofynion cyfreithiol. Gall methu â gwneud hynny fod yn gostus, a bydd yr effaith gronnol yn aml yn feichus dros ben. Er mwyn helpu busnesau i ddeall y newidiadau yn y ddeddfwriaeth, mae'r Asiantaeth wedi cynhyrchu canllawiau cynhwysfawr ar ofynion labelu alergenau.

Hefyd, llwyddodd yr Asiantaeth i negodi cyfnod o ddeuddeng mis i weithredu unrhyw newidiadau yn y labeli. Dylai hyn helpu busnesau bach i leihau'r gost drwy integreiddio'r newidiadau hyn yn rhan o'u prosesau adolygu labeli arferol.

Datblygu Cynaliadwy

Mae'n bosibl y ceir ychydig o effaith ar gynaliadwyedd oherwydd, ar ddiwedd y cyfnod hwn, bydd yn rhaid cael gwared ar nifer fechan o labeli a fydd yn dal heb eu defnyddio erbyn 31 Mai 2009. Bydd y ffaith bod rheolau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer cynhwysion alergenig wedi'u prosesu yn fanteisiol i ddefnyddwyr ag alergeddau.

Gorfodi
Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd (yng nghyswllt bwyd wedi'i fewnforio) ac Adrannau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol ac Adrannau Iechyd Amgylcheddol fydd yn gyfrifol am orfodi'r darpariaethau newydd. Mae hyn yr un fath â'r trefniadau gorfodi presennol.

Adolygu ar ôl Gweithredu
Caiff effeithiolrwydd y Rheoliadau eu monitro'n barhaus drwy adborth gan randdeiliaid. Mae mecanweithiau'r Asiantaeth ar gyfer monitro ac adolygu'n cynnwys y canlynol: fforymau agored, cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid, arolygon ac ymholiadau cyffredinol gan y cyhoedd. Bydd yr Asiantaeth yn cynnal arolwg llawn o effeithiolrwydd y Rheoliadau erbyn 2011.

Crynodeb
I grynhoi, bydd y Rheoliadau hyn o fudd i ddefnyddwyr ac yn galluogi'r DU i fodloni ei hymrwymiadau i'r Gymuned Ewropeaidd. Byddai methu â gweithredu'r Rheoliadau hyn yn arwain at dorri ymrwymiadau'r DU dan gytundeb y CE yn ddifrifol, ac yn golygu y câi achos tordyletswydd ei gychwyn gan y Comisiwn yn erbyn y DU, gan arwain, o bosibl, at ddirwyon trwm.